



Sut mae ein tîm recriwtio yn defnyddio gwybodaeth bersonol

Cyflwyniad

Mae'r datganiad preifatrwydd hwn yn cyfeirio at sut mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yn defnyddio eich data personol mewn perthynas â recriwtio, yn enwedig sut mae eich ffurflen gais ar gyfer cyflogaeth yn cael ei phrosesu gan y gwasanaeth.

Pa wybodaeth bersonol sy'n cael ei chasglu/cadw?

Y manylion y byddwn yn eu cadw yw'r wybodaeth a roddir gennych naill ai ar ein ffurflen gais e-recriwtio, neu a anfonir gennych atom drwy law e-bost fel rhan o'r broses ymgeisio.

Os dewisoch gwblhau adran Cyfleoedd Cyfartal y ffurflen E-recriwtio, cedwir y wybodaeth hon at ddibenion ystadegol yn unig ac ni fydd yn cael ei chysylltu â'ch cais. Ni ddefnyddir y wybodaeth hon ar gyfer unrhyw ddiben arall - ac nid yw'n rhan o'r broses recriwtio.

Pam fod angen i ni gasglu wybodaeth amdanoch chi?

Defnyddir y manylion a roddir gennych at ddiben prosesu eich cais cyflogi yn unig. Mae'r wybodaeth yn ein galluogi i sicrhau eich bod chi'n ateb gofynion y swydd ddisgrifiad a'r fanyleb person, ac yn galluogi'r panel dethol i gyrraedd penderfyniad gwybodus ynghylch eich addasrwydd ar gyfer y swydd.

Defnyddir rhai o'ch manylion personol ar gyfer gwrio eich hunaniaeth a chadarnhau eich bod chi'n cael gweithio o fewn y DU yn gyfreithlon.

Sut byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Ar ôl i chi gyflwyno eich ffurflen gais fe'i defnyddir ar gyfer y tasgau canlynol:

- Galluogi cyfathrebu rhwng ein Tîm Recriwtio ac Asesu a chi,
- Galluogi ystyried eich ffurflen gais ar gyfer proses llunio'r rhestr a chyfweld,

Cedwir y wybodaeth am ymgeiswyr llwyddiannus i ddiweddarau eich ffeil cofnodion personél yn awtomatig. Cewch ddiweddarau'r wybodaeth os bydd newidiadau.

Byddwn yn defnyddio a chadw'r wybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data perthnasol.

Byddwn yn ceisio cadw'ch gwybodaeth yn gywir ac yn gyfredol - fodd bynnag, os ydych chi'n credu bod y wybodaeth sy gennym yn anghywir neu os ydych chi'n gwybod bod rhai o'r manylion wedi newid, rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda i ni gael cofnodi'r newidiadau.

Ni chedwir unrhyw wybodaeth am fwy na'r amser sy'n ofynnol ar gyfer y diben y'i casglwyd iddo, nac unrhyw ddiben arall heb eich hysbysu (neu am fod gofyniad cyfreithiol i ni wneud hynny).



Cedwir gwybodaeth am ymgeiswyr aflwyddiannus am flwyddyn. Hysbysir ymgeiswyr sydd ar y rhestr wrth gefn am faint y bydd y rhestr honno'n gyfredol a chedwir gwybodaeth yn ôl y galw. Cedwir gwybodaeth ymgeiswyr llwyddiannus ar eu ffeil cofnodi personél.

Os byddwn yn gwaredu gwybodaeth, sicreuwyn y gwneir hynny yn ddiogel. Dileir gwybodaeth electronig o'n systemau, cedwir unrhyw gopiau papur o wybodaeth yn ddiogel ac wedyn fe'u rhwygir o fewn y safle.

Y Sail Gyfreithiol Am Gasglu Eich Data

Er mwyn casglu neu ddefnyddio gwybodaeth bersonol rhaid bod gyda ni sail gyfreithiol neu gyfreithlon. Yn yr achos hon mae'r seiliau canlynol yn berthnasol:

- **Mae angen prosesu ar gyfer perfformio cytundeb yr ydych chi (yr unigolyn y cyfeirir ato/ati yn y data) yn rhan ohono, neu er mwyn cymryd camau ar gais unigolyn y data yn ymrwymo i gytundeb.**
Rydych chi'n ceisio cyflogaeth â'r gwasanaeth. Er mwyn i ni brosesu eich cais, mae angen gwybodaeth bersonol penodol arnom.
- **Mae'r prosesu'n angenrheidiol i berfformio tasg a gyflawnir er lles y cyhoedd neu weithredu awdurdod swyddogol gan y rheolwr**
Mae gan GTADC gyfrifoldeb i gyflogi staff i ddarparu'r gwasanaethau gofynnol dan ddarpariaethau a fframweithiau cyfreithiol amrywiol. Mae angen i ni gasglu gwybodaeth bersonol i sicrhau ein bod yn cyflogi'r bobl iawn ar gyfer y rolau hyn.
- **Wedyn mae angen prosesu i gydymffurfio ag ymrwymiad cyfreithlon y rheolwr** Mae'n ofynnol i ni gyflawni gwiriadau penodol yn ôl y gyfraith - megis hawl unigolyn i weithio o fewn y DU.

Lle byddwn yn gofyn am wybodaeth am eich iechyd, rhaid i ni nodi sail gyfreithiol bellach. Yn yr achos hon y sail gyfreithiol yw:

- **Mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni ein hymrwymadau cyflogi**
Mewn rhai rolau penodol mae'n hanfodol i unigolion cwrdd â lefelau llym o ran iechyd a ffitrwydd. Mae hyn i ddiogelu eich iechyd, diogelwch a llesiant chi a phobl eraill.

Sut rydym yn diogelu eich gwybodaeth

Ein nod yw bod yn broffesiynol ac yn anymwithiol wrth gasglu eich data personol, ac ni fyddwn yn gofyn cwestiymau amheronol dianghenraid. Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn amodol ar fesurau a gweithdrefnau llym i sicrhau na ellir ei gweld, bod neb yn cael mynediad iddi nac yn cael ei datgelu i neb na ddylai ei gweld.



Cedwir y wybodaeth a ddarperir gennych yn ddiogel ar ein system Technoleg Gwybodaeth, sydd at ddefnydd awdurdodedig yn unig - sef ein tim Recriwtio ac Asesu, a'r unigolion sy'n cael eu dethol i'r panel Llundio rhestr fer a chyfweld.

Pwy arall fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

Gallai holl aelodau ein tim Asesu a Recriwtio gyrchu'r data a roddir gennych yn eich ffurflen gais, ac os bydd angen, aelodau o'n tim Adnoddau Dynol ehangach.

Bydd y data hefyd yn cael ei roi i aelodau'r Panel Llundio rhestr Fer a Chyfweld, fel rhan o'r broses ddethol. Rhoddir y wybodaeth hon, ynghyd ag arweiniad llawn am gyfrinachedd, i'r unigolion hynny ac ni chaniateir iddynt drafod unrhyw agwedd o ffurflenni cais â neb ond y tim Recriwtio ac Asesu. Ni roddir gwybodaeth monitro Cyfleoedd Cyfartal i'r panel, ac nid yw'n rhan o'r broses gyfweld a Llundio rhestr fer.

Gweinyddir ein proses cyflwyno cais Ar-lein gan system trydydd parti - Core HR. Cedwir y data yn ddiogel ar weinyddion a ddarparwyd gan CoreHR, ond nid oes ganddynt fynediad uniongyrchol i'ch gwybodaeth bersonol.

Pam rydym yn rhannu eich gwybodaeth

Ni ddatgelir eich gwybodaeth bersonol i neb ac ni fydd yn cael ei rhannu gyda neb (heblaw am yr amgylchiadau uchod); ac eithrio bod gofyniad cyfreithiol i ni wneud hynny.

Eich hawliau

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn sicrhau eich bod chi â rheolaeth dros eich data personol, ac mae gennych hawliau penodol. Y rhain yw

- Yr hawl i gael eich gwybodaeth - cewch ofyn am gopi o'r wybodaeth sydd gennym yn eich cylch.
- Yr hawl i ofyn i ni gywiro neu ddileu gwybodaeth yr ydych chi'n credu ei bod yn anghywir. -
Mae hefyd gennych hawl i ofyn i ni atal prosesu eich gwybodaeth bersonol neu ei ddileu.

Os hoffech drafod neu weithredu unrhyw rai o'r hawliau hyn neu os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach am sut mae GTADC yn defnyddio data, cysylltwch â'r Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth a Chydymffurfedd.

Miss Rachel Trusler
Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth a
Chydymffurfedd
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View
Llantrisant
CF72 8LX

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service

r-trusler@decymru-tan.gov.uk

01443 232213

Mae hefyd hawl gyda chi i godi unrhyw bryderonsydd gennych â'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n goruchwyllo Deddfwriaeth Diogelu Data. Ceir gwybodaeth bellach ar eu gwefan - <https://ico.org.uk/concerns/> neu mae'n bosib cysylltu ag hwy yma:

The Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Chester
SK9 5AF

Ffôn - 0303 123 1113